# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 31 Gorffennaf 2024

Yn bresennol (yn bersonol)
Dr R Heath Davies.

[Ymunodd Dr M Havard â'r cyfarfod cyn yr eitem ar ddatgan buddiant (gweler Cofnod 3).

Yn bresennol (o bell)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd M James, Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd A Tinley.

Swyddogion yn bresennol
Ceri Kwiecinski (Archwilio Mewnol), Jason Blewitt a Charles Rigby (Archwilio Cymru), Y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Swyddog Prosiect Iechyd a Diogelwch, Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu, Cyfarwyddwr Byd Natur a Thwristiaeth, Pennaeth Datgarboneiddio, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -12.15pm; 12.25pm – 1.45pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

Agorodd Cadeirydd yr Awdurdod, y Cynghorydd D Clements, y cyfarfod gan ddweud mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer y swydd Cadeirydd, sef Dr R Heath Davies.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Clements, ac eiliwyd gan y Cynghorydd M James, a **PHENDERFYNWYD** ethol Dr R Heath-Davies yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Yn dilyn ei ethol, cymerodd Dr Heath Davies y Gadair.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer y swydd Dirprwy Gadeirydd gan nad oedd enw wedi dod i law.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Clements, ac eiliwyd gan Dr Heath Davies, a **PHENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd M James yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3 . Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a Mrs V Thomas.

**4. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant**.**

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd Price, **penderfynwyd** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024 a'u llofnodi.

**6. Materion yn Codi/ Log Gweithredu**

Roedd y cofnodion yn nodi y byddai Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ynghylch archwilio perfformiad gan mai ychydig iawn o waith a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r Cyfarwyddwr pan gytunwyd ar raglen ddiwygiedig, ond roedd o'r farn na ddylid talu'r ffi lawn am y flwyddyn 2023. Dywedodd Charles Rigby, yr Arweinydd Archwilio ar gyfer Archwilio Perfformiad, ei fod yn deall rhwystredigaeth yr Awdurdod am yr oedi i'r amserlen a achoswyd gan faterion capasiti. Eglurodd mai dim ond am waith oedd wedi'i gyflawni y gallai Archwilio Cymru godi tâl amdano, a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn yr wythnosau nesaf. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y byddai dwy flynedd o waith i bob pwrpas yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Nodwyd y diweddariadau a ddarparwyd yn y Log Gweithredu, er nad oedd y dogfennau a nodir yn ID988 wedi'u dosbarthu. Roedd disgwyl derbyn y dogfennau hyn fis Medi, a chytunodd y Prif Weithredwr i'w dosbarthu unwaith y byddent wedi dod i law.

O ran ID995, dywedodd y Prif Weithredwr bod y gwaith o ddatblygu cofrestri is-risg yn parhau ac y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod yn y dyfodol.

**7. Materion Personol**

Cyn symud ymlaen at y materion niferus ar yr agenda, gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor oedi er cof am y Cynghorydd Peter Morgan, Aelod o'r Awdurdod ers blynyddoedd, fu farw yn ddiweddar. Cafwyd munud o dawelwch.

**8. Materion yn codi yn sgîl yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 24/7/24 yn ystyried y Datganiad Cyfrifon Drafft am y flwyddyn yn diweddu ar yr 31ain o Fawrth 2024**

Gan nad oedd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian wedi gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod diweddar yr Awdurdod, roedd yr eitem hon yn gyfle i unrhyw gwestiynau ar y Cyfrifon oedd yn weddill gael eu hateb. Fodd bynnag, nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion o sylwedd wedi'u codi. Cytunodd y swyddog i roi manylion i Aelod am eiddo oedd yn cael ei brydlesu/ rhentu, a dywedodd y byddai copi terfynol o'r cyfrifon yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod fis Hydref unwaith y byddai'r Archwiliad wedi'i gwblhau.

**Nodwyd.**

**9. Cynllun Archwilio gan Archwilio Cymru 2024**

Croesawodd y Cadeirydd Jason Blewitt (Rheolwr Archwilio – Archwilio Ariannol) a Charles Rigby o Archwilio Cymru a amlinellodd y rhaglen waith am y flwyddyn i ddod. Eglurodd Mr Blewitt bod yr adroddiad yn nodi’r lefelau perthnasedd a’r risgiau sylweddol i'w hystyried fel rhan o'r archwiliad ariannol. Y dyddiad olaf ar gyfer cwblhau'r gwaith oedd 30 Medi. O ran yr archwiliad perfformiad, nodwyd bod tîm newydd wedi’i benodi, ac y byddai’r gwaith ar Archwiliad “Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mynediad” 2023 yn cael ei gyflawni dros y 6 wythnos nesaf, a’r archwiliad o gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn cael ei gyflawni rhwng mis Mehefin a mis Hydref, fodd bynnag byddai prosiect thematig/ lleol arall hefyd yn cael ei drefnu.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai cael 3 adolygiad Archwilio mewn blwyddyn yn heriol i’r swyddogion, a chynigiodd gyfle i'r tîm newydd gwrdd â’r swyddogion i ymgyfarwyddo â gwaith yr Awdurdod. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod methiant i amlinellu'r gwaith yn y Cynllun Archwilio yn tanseilio diben y Cynllun, a chwestiynodd y ffioedd a bennwyd gan fod y cynnydd yn ymddangos yn fwy na 6.4%. Yn ystod y cyfarfod cadarnhaodd Mr Blewitt bod y ffioedd am 24/25 yn gywir ond ymddiheurodd bod y ffigyrau a nodwyd am 23/24 mewn gwirionedd yn ffigyrau am 21/22. Byddai'n diweddaru'r cynllun.

Ychwanegodd y Cadeirydd nad oedd profiad diweddar o astudiaethau thematig wedi rhoi'r gwerth gorau i'r Awdurdod oherwydd er bod gwerth mewn astudiaeth o safbwynt y 3 Parc Cenedlaethol, roedd pob Awdurdod yn wahanol. Eglurodd Mr Rigby bod astudiaeth thematig fel arfer yn golygu bod yr un darn o waith yn cael ei wneud ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Roedd y darn o waith ar Lywodraethu yn astudiaeth ar wahân oedd yn benodol i’r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

**Nodwyd.**

**10 . Adroddiadau Archwilio Mewnol**

Croesawodd y Cadeirydd Ceri Kwiecinski o gwmni Astari, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad cyntaf y diwrnod hwnnw yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith a wnaed ar Lwybr yr Arfordir, ac roedd y gwaith hwn wedi derbyn sicrwydd rhesymol gyda thri argymhelliad blaenoriaeth ganolig. Dywedodd y Cyfarwyddwr bod y camau gweithredu wedi'u cytuno a bod gwaith ar y gweill i'w cyflawni.

Holodd Aelod pam y cynigiwyd yn wreiddiol am i'r adolygiad o Strategaeth Rheoli Llwybr yr Arfordir gael ei arwain gan gwmni allanol, yn enwedig gan fod hyn yn amodol ar fod cyllid ar gael. Eglurodd y swyddog bod y tîm wedi bod yn brin o staff a barnwyd y byddai cael persbectif allanol o fantais. Fodd bynnag roedd y tîm bellach â phob swydd yn llawn, ac roedd cyllid yn ei le. Serch hynny, dywedodd nad oedd y gwaith wedi'i gomisiynu eto a'i bod yn bosibl na fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er bod yr adroddiad yn nodi nad oedd y Strategaeth wedi'i hadolygu, sicrhaodd yr Aelodau bod hyn wedi'i wneud yn anffurfiol. Gofynnodd yr Aelodau am i'r Strategaeth bresennol gael ei dosbarthu i'r Pwyllgor oherwydd pwysigrwydd llwybr yr arfordir i'r Sir, a bod diweddariad ar y dull gweithredu a'r amserlen ar gyfer gwneud y gwaith yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf.

Aeth Ms Kwiecinski ymlaen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol oedd yn dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod drefniadau digonol ac effeithiol o lywodraethu a rheoli risg. Roedd wyth adolygiad wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, dau ohonynt yn rhai ymgynghorol, ac roedd y ddau hyn wedi nodi bod angen gwelliannau i amrywiol feysydd o reolaeth fewnol, gan roi sicrwydd Rhesymol mewn pump maes a Rhywfaint o sicrwydd ym maes Gwybodaeth a Seiberddiogelwch lle roedd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gan yr Awdurdod reolaethau mewnol digonol ac effeithiol mewn lle. Roedd yr adolygiad Dilynol wedi nodi bod camau ymlaen rhesymol wedi'u gwneud o ran gweithredu'r argymhellion.

Y trydydd adroddiad oedd diweddariad ar Strategaeth Ddrafft Archwilio Mewnol am y cyfnod 24/25 – 26/27 oedd yn cynnig strategaeth tair blynedd gyda chynllun mwy manwl ar gyfer y gwaith sydd i'w gyflawni yn 2024/25. Roedd y strategaeth hon wedi'i diweddaru yn seiliedig ar y gofrestr risg ddiweddaraf a'r wybodaeth a gafodd y cwmni wrth weithio gyda'r Awdurdod dros y deuddeg mis blaenorol. Fodd bynnag, roedd yn parhau i fod yn gwbl hyblyg i anghenion yr Awdurdod.

Gofynnwyd a fyddai Astari yn edrych ar yr ymarferiad o adolygu'r Cyflogau a Graddfeydd. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai gwell

ffyrdd o adolygu'r darn hwnnw o waith, fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Gwasanaethau Pobl.

Diolchodd y Cadeirydd i dîm cyfan Astari am y gwaith a gyflawnwyd. Dywedodd y byddai'r adroddiad terfynol ar Wybodaeth a Seiberddiogelwch a Diogelu Data yn cael ei drafod mewn sesiwn breifat ar ddiwedd y cyfarfod.

**Nodwyd.**

**11. Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol (yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024)**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn cais gan yr Aelodau, bod Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu i gynorthwyo'r gwaith o fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar bob un o'r camau gweithredu, ac yn amlygu bod nifer o'r camau blaenoriaeth uchel a chanolig bellach wedi'u cwblhau. Dywedwyd yn y cyfarfod bod y Grŵp Diogelu bellach wedi cyfarfod, a'r gobaith oedd y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod yr Awdurdod mis Hydref.

Gofynnodd yr Aelodau a ellid cael dolenni cyswllt â'r adroddiadau Archwilio gwreiddiol, a hefyd cael rhai sylwadau ar ddyddiadau a'r statws a roddwyd yn y golofn camau ymlaen. Cytunodd y swyddog i edrych eto ar fformat yr adroddiad.

**Nodwyd**.

**12. Adroddiad Monitro Sicrwydd - Cydymffurfiaeth, Dyletswyddau Cyhoeddus a Statudol, a Gwelliant Corfforaethol**

Dywedodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth mai nod yr adroddiad hwn oedd adolygu perfformiad presennol yr Awdurdod o ran cydymffurfiaeth, dyletswyddau cyhoeddus a statudol, a meysydd gwella corfforaethol. Byddai'r adroddiad hwn yn un elfen o'r mesurau rheoli risg, ac yn gymorth i'r swyddogion ac i'r Aelodau fonitro, asesu ac ymateb i feysydd gwaith cydymffurfio a gwella corfforaethol. Hefyd roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau ymlaen yn erbyn y meysydd gwella corfforaethol a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod a'r Cynlluniau Cyflawni.

Roedd yr adroddiad yn rhoi sgoriau cydnerthedd ar gyfer pob maes, a lle bod lefelau goddefiant neu sbardunau wedi'u cyrraedd oedd yn arwain at sgôr a ystyrir sy'n 'peri risg neu sy'n 'peri pryder' roedd gwybodaeth ychwanegol ac ymateb y rheolwyr wedi'u rhoi.

Roedd yr Aelodau yn parhau i fod yn bryderus ynghylch nifer y polisïau yr oedd angen eu hadolygu, ond rhoddwyd sicrwydd iddynt bod y gwaith o glirio'r ôl-groniad o ddiweddaru polisïau yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, nodwyd mai materion o welliant corfforaethol oedd yr eitemau heb eto eu hadolygu yn hytrach na methiannau o ran cydymffurfio. Serch hynny, roedd yn bwysig canolbwyntio ar flaenoriaethau. Hefyd nodwyd y diffyg camau ymlaen ar ymarferiad cyllidebu ar sylfaen sero.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd Price a gadael y cyfarfod yr adeg hon.]

**13. Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant am y Cyfnod yn diweddu ar 31 Mawrth 2024**

Dywedwyd bod yr adroddiad hwn yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau ymlaen yn erbyn y dangosyddion blaenoriaeth, prosiectau, rhaglenni gwaith a gweithgareddau datblygu mewnol oedd yn gysylltiedig â'r gweithgareddau a glustnodir yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mawrth 2024 ar gyfer data a fewnbynnwyd yn wythnosol ac yn fisol, fodd bynnag byddai ystadegau Chwarter 1 yn cael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf.

Codwyd rhai cwestiynau ynghylch y tueddiadau o ran Gwefru Cerbydau Trydan (Cyfeirnod D6) y cytunodd y swyddog i ymchwilio iddynt, a hefyd y sgôr oren ar gyfer RT15, sef y nodau dehongli yng Nghanolfannau'r Awdurdod, ac eglurodd y swyddog bod hyn oherwydd y gwaith parhaus ar Uwchgynllun Oriel y Parc. Byddai diweddariad ar y sefyllfa yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 12.15pm a 12.25pm]

**14. Adroddiad Chwarterol ar Iechyd, Diogelwch a Lles**

Roedd adroddiad y Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddamweiniau a digwyddiadau am y cyfnod o fis Mai i fis Gorffennaf, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd, a'r gwaith arall sy'n cael ei wneud. Hefyd cyflwynwyd dangosfwrdd o'r ystadegau salwch staff. Gofynnodd yr Aelodau rai cwestiynau ynghylch y system larwm yn Oriel y Parc, a rhoddwyd sicrwydd iddynt bod y system yn cael ei monitro'n rheolaidd a bod rhai synwyryddion newydd wedi'u gosod. Amlygwyd hefyd pa mor bwysig yw monitro bod yr Asesiadau Sgrîn Arddangos yn cael eu cwblhau, yn enwedig lle mae'r staff yn gweithio gartref.

Hefyd wedi'i atodi roedd yr Adroddiad Blynyddol drafft oedd yn rhoi sicrwydd bod y prosesau a'r systemau oedd yn eu lle ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod yn parhau i fod yn effeithiol. Rhoddodd y swyddog y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor bod y Cynllun Rheoli Asesu Risg wedi'i gwblhau ers ysgrifennu'r adroddiad, a bod y dogfennau ar gael ar fewnrwyd yr Awdurdod. Dywedwyd y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Medi.

**Nodwyd.**

**15. Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol 2024 – 2027**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r Strategaeth hon oedd yn nodi'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r nodau o ran darpariaeth TG yr Awdurdod i'r Aelodau ac i'r staff ar draws nifer o safleoedd a gwasanaethau. Wrth ddatblygu'r strategaeth, roedd y swyddogion wedi ystyried yr archwiliadau TG blaenorol a chyfredol, y gwaith diweddar ar gynllun parhad busnes y Parc Cenedlaethol, y cynllun adfer wedi Trychineb TGCh, a thrawsnewid i Microsoft 365, yn ogystal â chlustnodi'r meysydd o bryder, y gwelliannau a'r heriau a'r risgiau a ragwelir.

Croesawodd yr Aelodau y blaenoriaethau clir a nodwyd, ond awgrymwyd y gellid ehangu gweledigaeth y Strategaeth i amlygu'r heriau sy'n wynebu'r sefydliad, yn enwedig o ran seiberddiogelwch, ac i amlygu y gallai fod angen adnoddau ychwanegol i gyflawni'r Strategaeth. Pwysleisiwyd bod y Strategaeth ar gyfer pob aelod o staff a phob Aelod, ac o'r herwydd, gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r eiriolwyr ar draws yr Awdurdod, gan gynnwys yr Aelod Eiriolwr.

**Cytunwyd** i fabwysiadu'r Strategaeth.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd A Tinley a gadawodd y cyfarfod yn ystod y cyflwyniad canlynol.]

**16. Adroddiad ar y Gyllideb am y 2 fis yn diweddu 31 Mai 2024**

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y gyllideb refeniw net oedd yn dangos bod gwariant gwirioneddol yn well na'r gyllideb. Fodd bynnag nid oedd yr amserlen ar gyfer yr adroddiad hwn a'r materion gyda'r system gyllid wedi caniatáu digon o amser i sefydlu croniadau/ ymrwymiadau teg ac adolygiad llawn o'r canlyniadau. Ac eithrio Rheoli Datblygu, oedd wedi gweld costau uwch na'r disgwyl, roedd yr adrannau gwasanaeth o fewn y disgwyliadau. Hefyd roedd crynodeb o berfformiad manwerthu wedi'i gynnwys oedd yn dangos canlyniad cadarnhaol hyd yn hyn. Fodd bynnag, nid oedd incwm y meysydd parcio yn dangos cynnydd sylweddol

er gwaethaf y cynnydd yn y taliadau a godir am barcio, ac y byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dywedwyd mai'r sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2024/25 oedd gwarged gweithredol o £198k er gwaethaf bod diffyg net o £509k wedi'i gyllidebu yn y gyllideb wreiddiol. Roedd hyn i'w briodoli i gyllid refeniw ychwanegol o £660k a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd unrhyw ddiffyg felly i'w ddisgwyl ar ddiwedd 24-25, ond roedd y rhagolwg hwn yn rhagdybio y bydd y targedau incwm wedi'u cyflawni a bod costau yn parhau o dan reolaeth.

Roedd y rhaglen gyfalaf am y flwyddyn wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £972k i gyllideb ddiwygiedig o £1,558k. Roedd y gyllideb wedi cynyddu yn bennaf oherwydd bod eitemau wedi'u cynnwys oedd wedi'u harchebu ddiwedd y flwyddyn ond heb eu gwireddu, yn ogystal â chyllideb uwch ar gyfer adeiladu'r Ystafell Werdd arfaethedig.

Hefyd roedd y ffigurau ar gyfer y cronfeydd wrth gefn wedi'u cynnwys, sef y cronfeydd cyffredinol a'r cronfeydd wedi'u clustnodi, ac amlygwyd rhai symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Cwestiynodd yr Aelodau y rhesymau dros y gostyngiad mewn refeniw meysydd parcio, a dywedodd y swyddogion mai'r tywydd gwael ar ddechrau'r tymor oedd i gyfrif am hyn. Holwyd hefyd am hyd oes bysiau mini yr Awdurdod a'r gyllideb i brynu bysiau newydd yn eu lle. Atebodd y swyddogion bod cynllun datgarboneiddio ar waith ar gyfer y fflyd, a bod y gost o brynu bysiau newydd yn cael ei hasesu ar hyn o bryd.

**Nodwyd** yr adroddiad a chymeradwywyd y symudiad yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd hyd yn hyn.

**17. Eithrio'r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Havard, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**18. Adroddiad Archwilio Mewnol – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Diogelu Data**

Nodwyd bod lefel y sicrwydd ar gyfer yr archwiliad hwn wedi'i rannu fesul maes, a bod Diogelu Data yn cael sicrwydd rhesymol, tra bod gwybodaeth a Seiberddiogelwch wedi cael rhywfaint o sicrwydd. Roedd nifer o argymhellion wedi'u gwneud, a chytunwyd ar gamau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion hyn.

**Nodwyd.**

**19. Polisi Rheoli Risg – Cofrestr Risg a Datganiad Rheoli Risg**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cofrestr Risg a Datganiad am Barodrwydd i Dderbyn Risg ar fformat newydd wedi'u cyflwyno yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor. Roedd rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf, a thynnwyd sylw at y newidiadau hynny, a thrafodwyd awgrymiadau eraill gan yr Aelodau.

**Nodwyd.**

**20. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13/11/24 heb eu diwygio. |